

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol

Mai 3ydd, 2018

Preseanol: Y Maer, Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Eifion Roberts, Dilys Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams, Lis Puw (*Clerc*).

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2017.
- 2 Etholwyd Sharon Wyn Evans yn Faer am y flwyddyn 2018-19.
- 3 Etholwyd Eifion Roberts yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2018-19.
- 4 Penodwyd Cyngorwyr i weithredu ar is bwyllgorau.
- 5 Enwebwyd Sharon Wyn Evans fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar bwyllgor ardal Un Llais Cymru.
- 6 Enwebwyd 4 cynrychiolydd ar Bartneriaeth Penllyn sef Alun Price, Rhys Evans, Dilys Evans a John C Williams.
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor.
- 8 Adolygu a chadarnhau Côt Ymddygiad y Cyngor.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheoliadau Ariannol y Cyngor.
- 10 Cytunwyd i barhau gyda threfniant Prydles Y Domen (eiddo Cyngor Gwynedd).
- 11 Cytunwyd i barhau gyda'r cytundeb rhwng y Cyngor Tref (fel aelod o Bartneriaeth Penllyn) â Chyngor Gwynedd.
- 12 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor.
- 13 Adolygwyd a chadarnhau'r trefniadau yswiriant.
- 14 Cytunwyd i apwyntio Luned Fôn fel Archwilydd Mewnol 2018-19.
- 15 Derbyniwyd Cofrestr Presenoldeb 2017-18.
- 16 Cadarnhawyd Datganiadau Buddiant am y Flwyddyn 2017-18.
- 17 Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd 2017-18 (*isod*)

18 Wrth gloi a therfynu ei blwyddyn fel Maer y dref a hefyd ei chyfnod fel Cyngorydd, diolchodd y Maer, y Parchedig Dorothi Evans am y pleser a gafodd o gynrychioli'r Cyngor a'r Dref fel Maer. Dywedodd fod newidiadau i lywodraeth leol ar y gorwel pell anod mynegodd ei hedmygedd o wasanaeth gwirfoddol Cyngorwyr ar Gyngor Tref Y Bala. Soniodd ei bod wedi cael cyfle i fynychu nifer o achlysuron a'i bod wedi cyfrannu at rai drwy Gronfa'r Maer. Roedd yn teimlo y dylid fod yn falch iawn o'r Llyfrgell newydd a agorwyd yn ddiweddar gan yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas ac fe anogodd trigolion i wneud defnydd llawn o'r adnodd pwysig hwn. Roedd yn bleser ganddi drosglwyddo'r gadeiryddiaeth i Sharon Wyn Evans. Cododd y Cyngor i gyfarch y Maer newydd, ac fe wnaeth hithau ddiolch am ymddiriedaeth y Cyngor ynddi. Cyn ffarwelio gyda Dorothi Evans, fe gyflwynodd Sharon Wyn Evans flodau hardd iddi.